# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **10 EBRILL 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN STRATEGOL ARCHWILIO MEWNOL 2012/2015 A CHYNLLUN CYFNODOL 2014/2015** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH AC I'W FABWYSIADU** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **I'W FABWYSIADU** |

## 1. Cynllun Strategol Archwilio Mewnol 2012-2015

Mae'r Cynllun Strategol Archwilio Mewnol cyfredol yn berthnasol i'r cyfnod 2012/13 i 2014/15 a chafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 23 Gorffennaf 2013. Cymeradwywyd Cynllun Gweithredu'r Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2013/14 ar y dyddiad hwnnw hefyd ac mae diweddariadau ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu hwnnw wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod 2013/14.

Mae Cynlluniau Archwilio Mewnol yn ddogfennau byw ac mae angen eu diweddaru'n gyson wrth i systemau newydd gael eu datblygu, wrth i systemau cyfredol newid yn sylweddol, yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth ac amcanion, a phan nodir risgiau newydd.

Mae materion adnoddau hefyd yn cael effaith gyson ar y dadansoddiadau. Bydd llai o adnoddau nag a gynlluniwyd yn golygu y bydd angen blaenoriaethu ymhellach a gostwng nifer yr adolygiadau neu ostwng sgôp archwiliadau unigol. Bydd cynnydd mewn adnoddau yn golygu y gellir adolygu mwy o feysydd neu gynnal adolygiadau manylach.

## 2. Proses Asesiad Anghenion Archwilio

Mae'n dull ni o archwilio yn un sy'n seiliedig ar risg . Er mwyn adnabod y meysydd sydd angen archwiliad mewnol, mae'n rhaid i ni ddeall y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Yr ydym wedi cynnal asesiad anghenion diwygiedig am 2014/15 gan ddefnyddio'r prosesau canlynol:-

- Adolygwyd Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor gan roi sylw penodol i risgiau sydd wedi eu categoreiddio fel rhai risg Uchel i'r Cyngor;
- Cadarnhawyd amcanion craidd y sefydliad a'r risgiau allweddol penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion hynny trwy drafodaeth gyda rheolwyr y Cyngor;
- Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd ynglŷn â'r sefydliad o waith archwilio mewnol blaenorol er mwyn dynodi meysydd a fyddai'n cael budd o archwiliad mewnol;
- Yr oedd yr Asesiad Anghenion Archwilio hefyd yn nodi meysydd nad ydynt yn ymddangos fel risgiau blaenoriaeth uchel ond lle gall archwilio mewnol wneud cyfraniad pwysig tuag at sicrwydd, er enghraifft:
  - Gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol;
  - Gwaith sydd ei angen er mwyn i'r archwiliwr allanol fedru dibynnu ar waith archwilio mewnol ynglŷn â systemau cyllidol craidd yn unol â'r cysyniad o archwilio wedi'i reoli;
  - Meysydd o bryder sy'n cael eu nodi gan reolwyr neu'r Pwyllgor Archwilio;
  - Materion sy'n dechrau amlygu eu hunain; a'r
  - Angen am sicrwydd parhaus ynglŷn ag agweddau allweddol o reolaeth risg, trefn lywodraethol a rheolaeth fewnol.

Roedd dogfennau eraill y trowyd atynt wrth ddatblygu'r Cynllun hwn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i: Datganiad Llywodraethu Corfforaethol CSYM ar gyfer 2012/13; Archwiliad PWC o Ddatganiadau Cyfrifo; Y Gofrestr Risg Gorfforaethol; Cynllun Integredig Sengl CSYM am 2013-2025; ac ymgynghori gydag Archwilwyr Allanol (SAC), PWC a Sgriwtini ynglŷn â'u cynlluniau gwaith ar gyfer 2013/14.

Y dull yr ydym yn ei ffafrio o ran rhoi sylw i risgiau yw defnyddio Cofrestr Risg y Cyngor i yrru Cynlluniau Strategol a Gweithredol yr Adain Archwilio Mewnol gan ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i ddarparu sicrwydd ar gyfer y risgiau mwyaf i'r Cyngor lle mae modd gwneud hynny a lle mae'n briodol. Adroddir wedyn ar sicrwydd yn erbyn risgiau sy'n gyfarwydd i'r Rheolwyr ac Aelodau'r Cyngor trwy eu gwybodaeth am risg gorfforaethol.

Ar adeg yr Asesiad Anghenion Archwilio hwn, roedd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn parhau i gael ei datblygu ac nid oedd yn cynnwys yr holl ddarpariaethau i reoli'r risgiau a nodwyd ac, felly, unrhyw sgorau risg ar ôl camau lliniaru. Er y defnyddiwyd y Gofrestr, cyfyngwyd y defnydd hwnnw i nodi meysydd a allai fod yn rhai risg uchel.

Mae adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg ac effeithiolrwydd camau i liniaru risgiau uchaf y Cyngor wedi ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2014/15.

## 3. Gwerth am Arian (GAA)

Nodwyd GAA gan y Pwyllgor Archwilio fel bwlch sylweddol yn eu cylch gorchwyl cyfredol a gofynnwyd, trwy eu Gweithdy a gynhaliwyd yn Ionawr 2014, fod gwaith Archwilio Mewnol penodol ychwanegol yn cael ei wneud yn y maes yma yn 2014/15.

Dylid defnyddio adolygiadau'n ymwneud â GAA i gefnogi a monitro sut mae'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau sy'n lleihau a dylid ei gynnwys yng ngwaith Archwilio Mewnol pan yn bosib gan adrodd ar achosion pan na chyflawnir GAA.

## 4. Cynllun Gweithredu Blynyddol – Archwilio Mewnol

Ar gyfer bob blwyddyn o'r Cynllun Strategaeth Archwilio Mewnol, paratoir Cynllun Gweithredu a hwnnw sy'n rhoddi i'r Adain Archwilio Mewnol ei rhaglen waith am y flwyddyn. Mae'r Asesiad Anghenion Archwilio yn cael ei adolygu a gofynnir i'r Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Swyddogaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth nodi pob risg na chafodd sylw'n barod. Defnyddir yr Asesiad Anghenion Archwilio diwygiedig i sianelu adnoddau Archwilio Mewnol yn uniongyrchol i'r rhannau hynny o'r sefydliad sydd, yn dilyn gwaith asesu, yn peri'r risg fwyaf yng nghyswllt cyflawni ei amcanion.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2014/15, rydym wedi cyfarfod gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 ac wedi cysylltu gyda'r Cyfarwyddwyr eraill, y Pennaeth Swyddogaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth i drafod eu hanghenion. Ymgynghorwyd gyda'r Archwiliwr Allanol (SAC), PWC a'r Rheolwr Sgriwtini yng nghyswllt Cynllun Gweithredu arfaethedig 2014/15.

Mae'r Cynllun Gweithredu arfaethedig ar gyfer Archwilio Mewnol, fel y gwelir ef yn Atodiad A, yn adlewyrchu canlyniadau arolwg eleni o'r Asesiad Anghenion Archwilio ac yn adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2014/15.

## 5. Materion Adnoddau

Mae cyllideb yr Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2014/15 yn seiliedig ar gael tîm llawn o Archwilwyr Mewnol. Adolygwyd nifer y dyddiau archwilio a raglennwyd i ddarparu targed heriol i'r Adain yn 2014/15 ac mae'n cynrychioli cynllun a flaenoriaethwyd ac a ddatblygwyd i roi sylw i bob Swyddogaeth, Adran a phob maes gwasanaeth, gan gynnwys meysydd risg newydd neu uwch ar gyfer 2014/15.

**Cyfnodau Absenoldeb** – Fel tîm bychan Archwilio Mewnol, gall absenoldeb staff gael effaith eithaf sydyn ar allu'r Tîm i gwblhau ei adolygiadau yn y cyfnod. O'r herwydd, gall fod angen cael adnoddau ychwanegol o du allan y Tîm ar gyfer absenoldebau tymor hir.

**Targedu Adnoddau** – Mae targedu adnoddau cyfyngedig yr Adain Archwilio Mewnol yn hollbwysig i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio lle mae'r angen mwyaf. Yn y cyswllt hwn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn defnyddio nifer o ddulliau i gynorthwyo gyda rheolaeth gan gynnwys: ymgynghoriaeth; cydymffurfiaeth; sicrwydd; rheoli risg; trefniadau llywodraethol; rheolaeth fewnol, gwerth am arian a lleihau'r risg o dwyll a chamgymeriadau. Er mwyn ychwanegu gwerth go iawn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn edrych ar y risgiau allweddol, ffrydiau gwaith a blaenoriaethau'r Cyngor ac yn canolbwyntio ei hymdrechion yn y meysydd hyn.

Fodd bynnag, nid oes ond modd gwneud hyn lle mae gan sefydliad drefniadau rheoli risg cadarn a fframweithiau rheoli a llywodraethu sy'n gweithio'n effeithiol. Mae ein gwaith yn y meysydd hyn yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi nodi ac adrodd ar wendidau sylweddol yn y prosesau sy'n parhau i gael sylw. O'r herwydd, bydd angen parhau i ddefnyddio adnoddau cyfyngedig yn yr Adain Archwilio Mewnol i gryfhau'r fframweithiau hyn o ran dyluniad rheolaethau, cydymffurfiaeth a sicrwydd.

**'Gwerth Ychwanegol'** – O'r herwydd, mae llai o adnoddau i ddarparu'r 'gwerth ychwanegol' y mae gan y Gwasanaeth y potensial i'w ddarparu. Fodd bynnag, rydym wedi medru cynnwys meysydd yn y Cynllun Gweithredu yr ydym yn ystyried y gallwn gynorthwyo rheolwyr ac ychwanegu gwerth mewn perthynas â chydymffurfio gyda'n cyfrifoldebau o ran Rheoli Gwybodaeth, y Rhaglen Effeithlonrwydd a'r prosesau ar gyfer pennu'r gyllideb a threfniadau monitro, trefniadau diogelu, perfformiad yn erbyn cynlluniau perfformiad allweddol a datblygu'r fframwaith caffael Corfforaethol.

**Cyfeiriadau** – Eto yn ystod 2013/14, derbyniwyd 26 o gyfeiriadau mewn perthynas â gwendidau llywodraethu a diffygion mewn systemau rheoli yr oedd angen i'r Adain Archwilio Mewnol roi sylw iddynt. Rhagwelir y bydd y lefel yma o gyfeiriadau'n parhau ac mae rhywfaint o adnoddau wedi eu neilltuo ar gyfer y math hwn o waith yn 2014/15.

Er mwyn sicrhau fod digon o adnoddau ar gael ar gyfer cwblhau'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol, mae'r Rheolwr Archwilio yn cadw'r hawl (mewn ymgynghoriad â'r Swyddogion Adran 151 a Monitro) i fod yn ddethol o ran y cyfeiriadau y gall y Gwasanaeth ymchwilio iddynt ac yn adrodd arnynt.

## 6. Cynlluniau Blynyddol a Strategol

Rydym wedi diweddaru'r Cynllun Archwilio Mewnol Strategol ar gyfer 2012/13 i 2014/15 sy'n cynnwys y Cynllun Gweithredu Mewnol ar gyfer 2014/15 ac fe'i cyflwynir i'w ystyried gan uwch reolwyr ac Aelodau a hynny'n unol â Chôd Ymarfer Archwilio CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol (gweler Atodiad A). Mae'r Cynllun Strategol Archwilio Mewnol i'w weld yn Atodiad C a manylir ar y materion yn ymwneud ag adnoddau yn Atodiad B.

## 7. Materion i'r Pwyllgor Archwilio eu hystyried

- A yw Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2014/15 yn adlewyrchu'r meysydd y mae'r Pwyllgor Archwilio yn credu y dylid rhoi sylw iddynt fel blaenoriaeth?
- Ac ydyw lefel yr adnoddau archwilio yn dderbyniol i'r Pwyllgor ac yn briodol ganddo yn wyneb lefel y sicrwydd y gofynnir amdani?

**JOHN FIDOE**
**RHEOLWR ARCHWILIO** **3 EBRILL 2014**

ATODIAD A

CYNGOR SIR YNYS MÔN

# CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL - 2014/15

| Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2014/15 | | | |
|---|---|---|---|
| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell |
| | | **CORFFORAETHOL** | |
| 1 | Corfforaethol | Trefniadau Gwrth-dwyll – Cytundebau Lefel Gwasanaeth | CG Pwyllgor Archwilio |
| 2 | Corfforaethol | Fframwaith Rheoli Risg a'r 5 Prif Risg- Strategaeth Risg a'r Cofrestrau Risg | Risg Gorfforaethol |
| 3 | Corfforaethol | Llywodraethu Gwybodaeth – Dilyn i fyny'r Cynllun Gweithredu mewn Ymateb i SCG | Risg Gorfforaethol YM31 |
| 4 | Corfforaethol | Adolygu Cydymffurfiaeth gyda Pholisïau Llywodraeth Gwybodaeth; Contractau Safonol Deddf Diogelu Data; Rhybuddion Preifatrwydd Teg; Marcio Data/Categoreiddio; Trîn Dogfennau Swyddogol-Sensitif, a.y.y.b. – Angen Awst 2014 | Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol) YM31 |
| 5 | Corfforaethol | Gwerth am Arian - Cytundebau Lefel Gwasanaeth | Risg a Aseswyd gan AM |
| 6 | Corfforaethol | Rheoliaethau Mynediad Rhesymegol a Hawliau Mynediad (Gwahanu Dyletswyddau) - Systemau corfforaethol allweddol | Risg a Aseswyd gan AM |
| 7 | Corfforaethol | Prosesau Adolygiadol ôl-weithredu - Corfforaethol | Cais DPW |
| 8 | Corfforaethol | Asedau a Cyfalaf – yn cynnwys prosiect Gweithio'n Hyblyg | Cais DPW/SM |
| 9 | Corfforaethol | Asesiad Corfforaethol – yn cynnwys Effeithiolrwydd Sgriwtini | Cais DPW |
| 10 | Corfforaethol | Gweithdrefn Gwynion Gorfforaethol - Ch 1 | Cais y SM |
| 11 | Corfforaethol | Fframwaith Sicrwydd – Cydymffurfiaeth | Risg Gorfforaethol YM16 |
| 12 | Corfforaethol | Gweithdrefn Rhannu Pryderon a Throsolwg Corfforaethol | Cais SM |
| 13 | Corfforaethol | Prosesau Cynllunio Corfforaethol | Cais Swyddog Adran 151 |
| 14 | Corfforaethol | Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol – rhai cywir a'u gosod ar lefelau heriol | Cais Swyddog Adran 151 |
| | | **ECONOMAIDD AC ADFYWIO CYMUNEDOL** | |
| 15 | Economaidd | Caergybi - Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid - Llywodraethu | Cais PG |
| 16 | Economaidd | Canolfan Hamdden Plas Arthur | Cylchol AM |
| 17 | Economaidd | Datblygu Chwaraeon | Cylchol AM |
| 18 | Economaidd | Canolfan Hamdden Amlwch | Cylchol AM |
| | | **DYSGU** | |
| 19 | Addysg | Ysgol Gynradd 1 | Cylchol AM |
| 20 | Addysg | Ysgol Gynradd 2 | Cylchol AM |
| 21 | Addysg | Ysgol Gynradd 3 | Cylchol AM |
| 22 | Addysg | Ysgol Gynradd 4 | Cylchol AM |
| 23 | Addysg | Ysgol Gynradd 5 | Cylchol AM |
| 24 | Addysg | Ysgol Gynradd 6 | Cylchol AM |
| 25 | Addysg | Ysgol Uwchradd 1 | Cylchol AM |
| 26 | Addysg | Ysgolion – Dilyn i Fyny – Coch a Coch/Ambr | Cylchol AM |
| 27 | Addysg | Adolygiad Thematig o'r Ysgolion | Cylchol AM |
| 28 | Addysg | Cinio am Ddim | Sicrwydd Allanol |
| 29 | Addysg | Perfformiad yn erbyn Cynllun Ôl-Arolwg Estyn | Risg Gorfforaethol YM 23 |
| 30 | Addysg | Trefniadau Rheolaeth Ariannol mewn Ysgolion – Adolygiad o'r Fethodoleg Archwilio | Risg a Aseswyd gan AM |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ADNODDAU** | | | |
| 31 | Cyllid | CIVICA - Cydymffurfio'n Weithredol - Gwasanaethau a Chyllid | Risg Gorfforaethol YM33 |
| 32 | Cyllid | Cyflogres yr Athrawon | Cylchol AM |
| 33 | Cyllid | Casglu Arian | Sicrwydd Allanol |
| 34 | Cyllid | Dyledwyr Amrywiol | Sicrwydd Allanol |
| 35 | Cyllid | Taliadau Credydwyr | Sicrwydd Allanol |
| 36 | Cyllid | Ledjer Ariannol a Chysoni gyda'r Banc | Sicrwydd Allanol |
| 37 | Cyllid | Budd-daliadau Tai | Sicrwydd Allanol |
| 38 | Cyllid | Rheoli Trysorlys | Sicrwydd Allanol |
| 39 | Cyllid | Y Dreth Gyngor | Sicrwydd Allanol |
| 40 | Cyllid | Trethi Cenedlaethol Annomestig | Sicrwydd Allanol |
| 41 | Cyllid | Y Gyflogres – gan gynnwys taliadau i bobl nad ydynt yn gweithio i'r Cyngor | Sicrwydd Allanol |
| 42 | Cyllid | Pennu'r Gyllideb a Monitro | Risg Gorfforaethol YM33 |
| 43 | Cyllid | Amserlen Cau'r Cyfrifon – Adolygu'r Broses | Cais Swyddog A151 |
| 44 | Cyllid | Prosesau A Chadernid Arbedion Effeithlonrwydd – Cyllideb a Strategaeth Effeithlonrwydd 2015/16 | Risg Gorfforaethol YM8 |
| 45 | Cyllid | Fframwaith Caffael Corfforaethol | Risg Gorfforaethol YM40 |
| 46 | Cyllid | Cynllun Ariannol Tymor Canol | Cais Swyddog Adran 151 |
| 47 | TGCh | Adolygiad Gwasanaeth TGCh (comisiwn allanol) | Cais Swyddog Adran 151 |
| 48 | TGCh | Trefniadau Adfer ar ôl Trychineb | Risg Gorfforaethol YM?? |
| **AMGYLCHEDDOL A THECHNEGOL** | | | |
| 49 | Priffyrdd | Gwaith Priffyrdd y Codir Amdano | Cylchol AM |
| 50 | Trafnidiaeth | Rhybuddion Dirwy | Sicrwydd Allanol |
| **TAI** | | | |
| 51 | Tai | Rhenti Tai | Sicrwydd Allanol |
| 52 | Tai | Rheoli Tai – gan gynnwys Gosod Tai a Gwrth-dwyll Tenantiaethau | Risg a Aseswyd gan AM |
| 53 | Tai | Uned Cynnal Adeiladau – Adroddiad Gwiriad Stoc | Blynyddol |
| 54 | Tai | Tai – Gwaith y Codir Amdano | Cais PG |
| **GWASANAETHAU PLANT** | | | |
| 55 | Plant | Caffael, monitro a chydymffurfiaeth contract | Cais PG |
| 56 | Plant | Comisiynu ar y cyd o fewn Gwasanaethau Plant | Cais PG |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | |
| 57 | Oedolion | Byw Cymunedol – Ucheldre | Cylchol AM |
| 58 | Oedolion | Cynllun Tai Gofal Ychwanegol | Cais SM |

**ATODIAD B**

## ADNODDAU

### 1. Asesu Lefel yr Adnoddau Angenrheidiol

Rydym wedi defnyddio'n barn broffesiynol i asesu pa lefel o adnoddau sy'n angenrheidiol i'r gwaith archwilio a nodwyd yn y cylch strategol. Mae lefel yr adnoddau'n dibynnu ar:-

- Cymhlethdod y system sy'n ei lle;
- Ffactorau megis nifer y lleoliadau, nifer y trafodion neu amlder y trafodion;
- Y sicrwydd y mae modd ei ddwyn ymlaen o waith archwilio'r flwyddyn cynt;
- Y math o waith archwilio a wneir.

### 2. Yr Adnoddau sydd ar gael yn yr Adain Archwilio Mewnol

Mae'r adnoddau sydd ar gael yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am 2014/15 fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Rheolwr Archwilio | 144 diwrnod |
| Uchel Archwiliwr Mewnol | 260 diwrnod |
| Archwilwyr Mewnol x 2 | 520 diwrnod |
| Archwilwyr x 2 | 520 diwrnod |
| **Cyfanswm:** | **1444** |

Mae'r cynllun yn seiliedig ar yr adnoddau uchod sydd ar gael yn 2014/15 ar ôl tynnu elfen o ddyddiau (466 diwrnod) na chodir amdanynt mewn perthynas â gwyliau blynyddol a salwch, hyfforddiant, gweinyddu gwaith y Pwyllgor Archwilio ac ati - sef dyletswyddau sy'n angenrheidiol ar gyfer swyddogaeth yr Adain ond nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag adolygiadau archwilio. Cynlluniwyd dyddiau ychwanegol (150 diwrnod) i wneud gwaith na chafodd ei raglennu sy'n cynnwys cyfeiriadau, materion a all godi, cyngor, dilyn i fyny ac ati. O'r herwydd, y nifer o ddyddiau sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol yw 825 diwrnod archwiliwr.

### 3. Y Defnydd a wneir o'r Adnoddau

Mae'r canrannau o ran y dyddiau archwilio sydd ar gael ar draws holl weithgareddau'r Cyngor i'w gweld isod. Mae'r dyraniadau yn adlewyrchu'r meysydd risg uchel corfforaethol cyfredol a nodwyd o'r Dadansoddiad o Anghenion Archwilio gan gynnwys y meysydd risg corfforaethol hynny y manylwyd arnynt yn yr Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol 2013/14. O'r herwydd, mae'r ganran uchaf o ddyddiau yn 2014/15 wedi eu neilltuo ar gyfer adolygiadau yn y meysydd Swyddogaeth Adnoddau, Corfforaethol a Dysgu (gan gynnwys ysgolion).

| Maes yn y Cyngor | Nifer yr adolygiadau | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Adnoddau | 18 | 31% |
| Corfforaethol | 14 | 24% |
| Dysgu | 12 | 22% |
| Economaidd ac Adfywio Cymunedol | 4 | 7% |
| Amgylcheddol a Thechnegol | 2 | 3% |
| Tai | 4 | 7% |
| Gwasanaethau Plant | 2 | 3% |
| Gwasanaethau Oedolion | 2 | 3% |
| **Cyfanswm nifer yr adolygiadau rhaglenedig yn y Cynllun** | **58** | **100%** |

### 4 Cydweithio

Mae Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru, sy'n cynnwys y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a phedwar o sefydliadau sector cyhoeddus eraill, wedi ei chreu i ganiatáu i'r sefydliadau partner weithio'n agosach gyda'i gilydd gyda'r nod o fod yn fwy effeithlon. Bwriad y Bartneriaeth yw gweithio gyda'i gilydd ar feysydd archwilio newydd ac esblygol a rhannu canlyniadau'r gwaith hwnnw.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd Grŵp Prif Archwilwyr Cymru ac mae'n bwriadu datblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach yn 2014/15.

**ATODIAD C**

## Cyngor Sir Ynys Môn

## CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL STRATEGOL 2012/13 I 2014/15 FEL YR OEDD YN EBRILL 2014

| Maes Archwilio | Gwirioneddol 2012/13 | Cynlluniedig 2013/14 | Cynlluniedig 2014/15 |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU CANOLOG A CHORFFORAETHOL** | | | |
| Fframwaith Rheoli Risg a Chofrestr Risg Gorfforaethol – adolygiadau Risg Uchel | | | 2 |
| Hunan Wasanaeth Adnoddau Dynol yn cynnwys Dangosyddion Iechyd Corfforaethol | | | |
| Polisi Teithio a Chynhaliaeth | | | |
| Prosesau goramser yn cynnwys system fflecsi | | | |
| Rheoli Perfformiad | | | 14 |
| Cytundebau Canlyniad | | | |
| Benthyciadau Car | Dim yn y Cynllun | | |
| Lwfansau Aelodau | | | |
| Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Data | | | 3 |
| Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Asesu'r Effaith ar Breifatrwydd | | | |
| Trefniadau Gwerth am Arian | | | 5 |
| Lwfansau Hyfforddi | | | |
| Rhestr Stoc | | | |
| Adfer TGCh ar ôl Trychineb a Parhad Busnes | | | 48 |
| Tracio Argymhellion – Adolygiad Gwirio Hunanasesiadau AM | | Mynd rhagddo | Mynd rhagddo |
| Tracio Argymhellion – nid rhai AM | | | |
| Adolygiad Iechyd Corfforaethol yn cynnwys salwch | | Gweler AD uchod | |
| Prosesau Cynllunio Busnes | | | 13 |
| Rheoli a Storio Cofnodiadau | | | Gweler Llywodraethu Gwybodaeth |
| Diogelu Data | | | Gweler Llywodraethu Gwybodaeth |
| Fframwaith Diogelu Recriwtio | | | 11 |
| Ynni-GAM | Dim yn y Cynllun | | |
| Menter Twyll Genedlaethol – System | | | |
| Dynladdiad Corfforaethol – Rheoli'r Fflyd+ | | | |
| Diogelwch Cymunedol | | | |
| Gofal Môn | | | |
| Cynllun Ariannol Tymor Canolig | | | 46 |
| Adferiad Corfforaethol, Rheoli Dyledion a Dileu Dyledion | | | |
| Partneriaethau - trefniadau llywodraethu | | | |
| Trefniadau Gwrth-Dwyll | | | 1 |
| Cydymffurfiaeth â Pholisïau Llywodraethau Gwybodaeth | | | 4 |
| Rheoliaethau Mynediad Rhesymegol | | | 6 |
| Prosesau Adolygiadol ôl-Weithredu | | | 7 |
| Asedau a Cyfalaf – yn cynnwys Gweithio'n Hyblyg | | | 8 |
| Asesiad Corfforaethol | | | 9 |
| Gweithdrefn Rhannu Pryderon | | | 12 |
| Cofrestr Etholiad | | | |
| *Gwasanaethau Cyfreithiol* | | | |
| Proses Cwynion | | | 10 |
| **IS-GYFANSWM** | 8 | 2 | 16 |
| **CYLLID A THECHNOLEG GWYBODAETH** | | | |
| *Cyllid* | | | |
| Proses Hawlio Grant | | | |
| Adolygiad Gweithredu Lejer Civica | | | |
| Lejer Civica - Adolygiad ôl gweithredol a Chydymffurfiaeth barhaus | | | 31 |
| Amserlen Cau Cyfrifon – Sicrwydd | | | 43 |
| Cyflogres Athrawon | | | 32 |
| NNDR | | | 40 |
| Budd-daliadau Tai | | | 37 |
| Y Dreth Gyngor | | | 39 |
| Y Gyflogres gan gynnwys Taliadau i Bobl nad ydynt yn gweithio yma | | | 41 |
| Mân ddyledwyr | | | 34 |
| Credydwyr | | | 35 |
| Lejer Ariannol a Chysoni Banc | | | 36 |
| Rheoli Trysorlys | | | 38 |
| Cyfrifon Imprest a Chysoni | | | |
| Casglu Arian | | | 33 |
| Pennu'r Gyllideb a Monitro | | | 42 |
| TAW | | | |
| Cardiau Caffael Corfforaethol | | | |
| Prosesau Arbedion Effeithlonrwydd a Chadernid | | | |
| Adroddiad Asedau Sefydlog | | | 44 |
| Trefniadau Caffael, Cydymffurfiaeth ac E-dendro | | | 45 |

| Technoleg Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|
| Gwiriad Iechyd TGCh/Adolygiad Gwasanaeth | | | 47 |
| DR TGCh | | | DR uchod |
| Mynediad i'r Rhyngrwyd / Defnydd o'r Rhyngrwyd | | | |
| Strategaeth TGCh | | | |
| Rhwydweithiau | | | |
| **IS-GYFANSWM** | **13** | **12** | **16** |

| **DYSGU GYDOL OES** | | | |
|---|---|---|---|
| *Dysgu Gydol Oes a Gwybodaeth* | | | |
| Oriel Ynys Môn | | | |
| Uned Llyfryddol | | | |
| Archifau | | | |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur | | | 16 |
| Datblygu Chwaraeon | | | 17 |
| Canolfan Hamdden Amlwch | | | 18 |
| Canolfan Hamdden Biwmares | | | |
| Ardystio Archwiliad – Chweched Dosbarth Llywodraeth Leol | | | |
| Canolfan Hamdden David Hughes | | | |
| **IS-GYFANSWM** | **1** | **1** | **3** |

| *Education – Gweler Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol* | | | ***19-25*** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Bodedern | | | |
| Ysgol Bodffordd | | | |
| Ysgol Llanbedrgoch | | | |
| Ysgol Rhosneigr | | | |
| Ysgol Goronwy Owen | | | |
| Ysgol y Tywyn | | | |
| Ysgol y Morswyn | | | |
| Ysgol Pencarnisog | | | |
| Ysgol David Hughes | | | |
| Ysgol Y Bont | | | |
| Ysgol Bryngwran | | | |
| Ysgol Llanfechell | | | |
| Ysgol Llanfairpwll | | | |
| Ysgol Kingsland | | | |
| Ysgol Llanfawr | | | |
| Ysgol Biwmares | | | |
| Ysgol Dwyran | | | |
| Ysgol Esceifiog | | | |
| Ysgol Gyfun Llangefni | | | |
| Ysgol Llanerchymedd | | | |
| Ysgol Llanfachraeth | | | |
| Ysgol Llangristiolus | | | |
| Ysgol Moelfre | | | |
| Ysgol Niwbwrch | | | |
| Ysgol Ffrŵd Win | | | |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | | | |
| Ysgol Syr Thomas Jones | | | |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | | | |
| **IS-GYFANSWM** | **8** | **7** | **7** |
| Dilyn i Fyny – Ysgolion (Coch neu Coch Ambr yn y flwyddyn flaenorol) | | | 26 |
| Grantiau Dillad LlC | | | |
| Incwm Prydau Ysgol | | | |
| Cinio am Ddim | | | 28 |
| Adolygiad Thematig o'r Ysgolion | | | 27 |
| LlC – Brecwast am Ddim | | | D/B |
| Grant Chweched Dosbarth – PLASC/Rhwydwaith Dysgu | Yn yr Ysgol | Yn yr Ysgol | Yn yr Ysgol |
| Incwm Cludiant Ysgol | | | |
| Trefniadau Rheolaeth Ariannol – gan gynnwys Methodoleg Archwilio | | | 30 |
| Integreiddio | | | |
| Ysgol Uwchradd Caergybi - Cyllideb | | | |
| Ffioedd Myfyrwyr | | | |
| Perfformiad yn erbyn Adroddiad ôl-Estyn | | | 29 |
| **IS-GYFANSWM** | **8** | **7** | **5** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYMUNED** | | | |
| *Tai* | | | |
| Digartrefedd | | | |
| Grantiau Tai | | | |
| Cymunedau'n Gyntaf | | | |
| Gwiriad Stoc Uned Cynnal Adeiladau | | | **53** |
| Caffael yn yr Uned Cynnal Adeiladau | | | |
| Rheoli Asbestos | | | |
| Costio Gwaith - UCA | | | |
| Rheoli Tai – yn cynnwys Gosodiadau | | | **52** |
| Rhenti Tai | | | **51** |
| Tai Gwaith y Codir Amdano | | | **54** |
| *Gwasanaethau Cymdeithasol* | | | |
| Ffioedd Allsirol – Gwasanaethau Plant | | | |
| Gwasanaethau Oedolion – Darpariaeth a Chostio | | | |
| Cynlluniau Parhad Busnes | | | |
| Ffeiliau Achos – Cydymffurfio | | | |
| Thematig – Ffrydiau Gwaith Statudol Allweddol | | | |
| Uned Gyllid Cleient – Cyfleon CIVICA | | | |
| Gwasanaethau Plant – Asesu a Monitro | | | |
| Penodeion / Dirprwyon | | | |
| Canolfan Dydd Biwmares | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Caffael | | | |
| Canolfan Byron | | | |
| Cartref Henoed Plas Penlan | | | |
| Pryd ar Glud | | | |
| Cyfrifon Dros Dro a Chronfeydd Rhoddion | | | |
| Taliadau Uniongyrchol i Gleientiaid | | | |
| Byw Cymunedol - Ucheldre | | | **57** |
| Cartref Henoed Plas Crigyll | | | |
| Cartref Henoed Garreglwyd | | | |
| Gofal Dydd Hafan | | | |
| Cynllun Tai Gofal Ychwanegol | | | **58** |
| Caffael, monitro a chydymffurfiaeth contract | | | **55** |
| Comisiynu ar y cyd o fewn Gwasanaethau Plant | | | **56** |
| **IS-GYFANSWM** | **6** | **5** | **7** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **DATBLYGU CYNALIADWY** | | | |
| Bathodynau Glas – Gweithdrefnau NFI | | | |
| Rheoli/Cynnal a Chadw Fflyd | | | |
| Trefniadau Rheoli Asedau | | | |
| Llywodraethu Cyllid Ewropeaidd Ôl-2013 | | | |
| Contractau Gwastraff | | | |
| Rhybuddion Ffioedd Gormodol | | | **50** |
| Ffioedd ac incwm meysydd parcio | | | |
| Arforol | | | |
| Rhenti Unedau Diwydiannol | | | |
| Masnachu Carbon | | | |
| Trafnidiaeth Cyhoeddus | | | |
| Targedau Rheoli Gwastraff | | | |
| Gwaith Priffyrdd y codir amdano | | | **49** |
| Cynnal a Chadw Tiroedd | | | |
| Ffioedd a Thaliadau | | | |
| Marchnadoedd | | | |
| Contract Cyfnodol - Palmantau | | | |
| Rhenti Mân-ddaliadau | | | |
| Grantiau Datblygu Economaidd | | | |
| Grant Cynllun Eiddo ac Amgylchedd (PEG) | | | |
| Caergybi – Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid - Llywodraethu | | | **15** |
| **IS-GYFANSWM** | **6** | **4** | **3** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **MEYSYDD ARALL** | | | |
| Darpariaeth ar gyfer archwiliadau arbennig | | | |
| Darpariaeth ar gyfer ceisiadau ad-hoc gan y Swyddog Adran 151 | | | |
| Darpariaeth ar gyfer Cyngor Cyffredinol i Wasanaethau | | | |
| Gwaith Dilyn i fyny | | | |
| Wrth gefn | | | |
| **IS-GYFANSWM** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFANSWM AM Y FLWYDDYN** | **50** | **38** | **58** |